



## Tuag at Newid i'r Digidol

Crynodeb o adroddiad Ofcom i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Y Cyfryngau a Chwaraeon

## Contents

Rhagair	- 1 -
Cyflwyniad	- 2 -
Beth yw teledu digidol?	- 2 -
Pryd y dechreuodd teledu digidol?	- 2 -
Oes gen i deledu digidol?	- 2 -
Beth yw newid i ddigidol?	- 2 -
Beth yw cynlluniau'r Llywodraeth?	- 3 -
Beth fyddai'r newid yn ei olygu i fi?	- 3 -
Pam y mae newid i'r digidol yn bwysig i'r DG?	- 3 -
Ydi'r DG yn gwneud hyn ar ei phen ei hun?	- 4 -
Llwyddiant teledu digidol	- 5 -
Y Cynnydd yn ystod 2003	- 5 -
Y dimensiwn rhanbarthol	- 5 -
Ail setiau	- 5 -
Ein rhag-ddisgwyliadau ar gyfer teledu digidol	- 6 -
A fydd teledu digidol yn dal i dyfu?	- 6 -
Ydi hi o bwys fod y tyfiant mewn teledu digidol yn debyg o arafu?	- 6 -
Y rhwystrau sy'n wynebu newid i'r digidol os na wneir dim byd	- 7 -
Ymateb y Defnyddwyr	- 7 -
Cymhellion darlledwyr	- 7 -
Teledu digidol gwyllo-am-ddim	- 7 -
Materion amseru	- 8 -
Gweithredu newid i'r digidol	- 8 -
Cytundebau rhyngwladol	- 8 -
Ein hargymhellion ar gyfer newid i'r digidol yn llwyddiannus	- 9 -
Amseru	- 9 -
Ein rheoliadau	- 10 -
Teledu digidol gwyllo-am-ddim	- 10 -
Gwybodaeth a chyngor i ddefnyddwyr	- 11 -
Symud o'r cynllunio i'r gweithredu	- 11 -
O fewn cyrraedd y boced	- 12 -
Materion Rhyngwladol	- 13 -

# Rhagair

Gofynnwyd i ni yn Ofcom (y Swyddfa Gyfathrebiadau) gan Tessa Jowell, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Y Cyfryngau a Chwaraeon, roi adroddiad ar y cynnydd tuag at symud i'r digidol. Symud i'r digidol yw uchelgais y Llywodraeth i ddiffodd y signal teledu traddodiadol y mae cartrefi wedi'i dderbyn drwy gyfrwng erialau teledu ers amryw flynyddoedd a rhoi signal digidol yn ei le. Anfonir y signal hwn hefyd dros donnau'r awyr i erialau teledu, ond bydd yn adeiladu'r llun drwy ddefnyddio miliynau o rifau un a dim.

Gofynnodd Ms Jowell inni:

- Werthuso'r rhagolygon ar gyfer newid i'r digidol yn ystod y deng mlynedd nesaf os bydd y llywodraeth yn penderfynu peidio â gwneud dim pellach i hybu teledu digidol;
- Mynegi ein barn ar sut y gallai'r genedl ddefnyddio'r tonfeddi sbâr ar ôl y newid;
- rhestru'r prif heriau a allai rwystro newid i'r digidol yn llwyr erbyn 2010; a

dadansoddi'r dewisiadau posibl i sicrhau newid i'r digidol.

Fe fydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb arbennig i ddefnyddwyr a dinasyddion y DG oherwydd y bydd angen i lawer brynu blychau trosi i wneud yn siŵr fod eu setiau teledu a recordyddion fideo yn parhau i weithio. Fe fydd y Llywodraeth, darlledwyr, gwneuthurwyr offer trosi a manwerthwyr yn ymddiddori yn ein 30 o argymhellion polisi, a ddyluniwyd i lyfnhau'r ffordd tuag at newid i'r digidol.

Nid yw ein hadroddiad yn trafod pob mater yn llwyr. Rydym ni wedi crynhoi peth o'r drafodaeth ynglŷn â'r newidiadau rheoleiddio posibl oherwydd bydd y manylion yn dibynnu ar ganlyniadau'r negydiadau cyfrinachol rhyngom ni a'r Llywodraeth a chwmnïau preifat. Hefyd nid ydym wedi ceisio mesur y gwelliannau i'r DG a ddaw yn sgil newid i'r digidol gan fod y Llywodraeth eisoes wedi gwneud waith tebyg sy'n dangos y byddai newid i'r digidol yn rhoi hwb aruthrol i economi'r DG. Rydym yn derbyn grym dadansoddiad y Llywodraeth ar yr amod ein bod yn gallu sicrhau y gall y DG wneud defnydd da o'r tonfeddi sbâr ar ôl y newid i'r digidol.

Oddi ar 29 Rhagfyr 2003, ni yw'r rheoleiddiwr newydd ar gyfer teledu, radio, telegyfathrebu a diwydiannau cyfathrebu eraill. Asesu a hybu'r newid i'r digidol fydd un o'n brif dasgau yn 2004.

Rydym ni wedi datblygu'r crynodeb hwn mewn iaith syml i'ch helpu i ddeall y materion. Nid yw'n esboniad ffurfiol na manwl o'n barn. Gallwch weld ein hadroddiad llawn ar [www.ofcom.org.uk](http://www.ofcom.org.uk)

# Cyflwyniad

## Beth yw teledu digidol?

Mae eich teledu gartref yn gweithio drwy dderbyn a datrys signal a gafodd ei anfon naill ai drwy'r awyr (daearol), neu drwy gebl yn rhedeg i'ch cartref (cebl) neu drwy loeren yn y gofod (lloeren)

Yn draddodiadol fe fyddai'r signal yn teithio fel cyfres o donnau, naill ai drwy'r awyr neu ar hyd cebl, a'r enw amdano oedd 'trosglwyddiad analog'. Fodd bynnag, yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae technoleg wedi symud ymlaen a bellach gallwn anfon lluniau teledu fel miliynau o rifau un a dim sy'n cael eu dehongli yn eich set deledu neu mewn blwch pen-teledu gyda'r set. Dyna beth yw teledu digidol.

Y gwelliannau yw ei fod fel arfer yn rhoi llun mwy eglur a sain gliriach, ac yn defnyddio llai o lawer o ofod i anfon yr un rhaglen deledu. Gellir anfon llawer rhagor o sianeli teledu ar yr un tonfeddi awyr neu ar hyd yr un cebl fel teledu digidol nag fel teledu analog, gan gynnig mwy o ddewis.

## Pryd y dechreuodd teledu digidol?

Yn y DG, dechreuodd teledu digidol yn 1998 pan ddechreuodd BSkyB gynnig y dewis o deledu digidol i'w gwsmeriaid i gymryd lle'r llestri lloeren analog a'r blychau pen-teledu. Yn fuan wedyn, dechreuodd ONdigital ddarlledu daearol digidol ac yn 1999, dechreuodd y cwmnïau cebl newid eu cwsmeriaid o'r gwasanaethau analog i'r gwasanaethau digidol

## Oes gen i deledu digidol?

Os ydych yn talu am wasanaeth lloeren BskyB, neu os oes gennych chi Freeview ac yn derbyn eich teledu drwy'r erial (ond hefyd mae gennych chi flwch pen-teledu neu set deledu sy'n gallu derbyn y signal digidol yn syth), mi fyddwch eisoes yn derbyn teledu digidol. Mae'r rhan fwyaf o danysgrifwyr teledu cebl hefyd yn derbyn teledu digidol. Fodd bynnag, nid yw'r cwmnïau cebl wedi llwyr orffen symud eu holl wasanaethau o analog i ddigidol.

Os ydych yn derbyn eich teledu drwy erial ac yn derbyn pedwar neu bump yn unig o'r prif sianeli – BBC1, BBC2, ITV, Channel 4/S4C a Five – rydych yn dal i gael y gwasanaeth analog. Ar ddiwedd 2003, roedd hanner cartrefi'r DG wedi newid i'r digidol ac roedd hanner yn dal yn ddibynnol ar dechnoleg analog i gael teledu.

## Beth yw newid i ddigidol?

Mae newid i ddigidol yn golygu diffodd y signal teledu analog traddodiadol y mae ein cartrefi wedi'i dderbyn ers llawer o flynyddoedd a gosod signal digidol yn ei le.

## Beth yw cynlluniau'r Llywodraeth?

Ym mis Medi 1999, cyhoeddodd y Llywodraeth am y tro cyntaf ei fwriad i ddiffodd y signal analog a newid i deledu digidol. Dywedodd y gallai'r broses gychwyn mor gynnar â 2006 a thrwy hynny gael ei chwblhau erbyn 2010.

Yn 1999, dywedodd y Llywodraeth na fyddai'r newid yn digwydd hyd nes y byddai'r amodau dilynol wedi'u cyflawni.

Yn gyntaf, y byddai pawb a allai weld y prif sianeli yn y dull analog eu derbyn ar system ddigidol.

Yn ail, fod newid i ddigidol yn ddewis y byddai bron pawb yn gallu'i fforddio.

Yn ddiweddarach, mae'r Llywodraeth wedi ailadrodd ei ymrwymiad i'r newid. Fodd bynnag does dim un dyddiad pendant wedi'i osod pryd y mae'n disgwyl neu'n dymuno gweld y newid yn cychwyn.

## Beth fyddai'r newid yn ei olygu i fi?

Fe fyddai'r newid yn golygu pethau gwahanol i wahanol bobl.

- Byddai cartrefi sy'n methu â derbyn sianelu teledu yn ddi-dâl ar hyn o bryd yn derbyn mwy o sianeli di-dâl. Fe ddigwyddai hyn mewn cartrefi lle nad yw teledu Freeview ar gael.
- Byddai pob teulu sy'n dymuno defnyddio erial i dderbyn teledu, naill ai ar ei brif set deledu yn yr ystafell fyw neu ar setiau eraill, yn gorfod prynu blwch pen-teledu er mwyn parhau i ddefnyddio'r set deledu os nad yw wedi gwneud hynny'n barod.
- Byddai teulu lle dymunir defnyddio recordydd fideo i recordio'r naill raglen wrth wylid un arall yn gorfod prynu blwch arall neu recordydd fideo newydd i wneud hynny.
- Byddai ambell gartref yn gorfod prynu erial newydd os yw'r erial presennol o ansawdd gwael.
- Ni fyddai teulu sydd eisoes wedi newid yn llwyr i gebl neu loeren neu Freeview yn gweld unrhyw wahaniaeth mawr.
- 

## Pam y mae newid i'r digidol yn bwysig i'r DG?

Gallai newid i'r digidol fod yn fuddiol dros ben i'r DG.

- Byddai'n rhyddhau nifer helaeth o'r tonfeddi a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddarlledu BBC1, BBC2, ITV, S4C/Channel 4 a Five. Mae'r tonfeddi a ddefnyddir ar gyfer teledu yn ffurfio rhan o'r hyn a elwir yn sbectrwm electromagnetig neu 'sbectrwm' yn fyr. Os bydd y newid yn digwydd, bydd yn rhyddhau rhan helaeth o sbectrwm ar gyfer dibenion eraill, naill ai rhagor o deledu neu gyfathrebu symudol, hyd yn oed.
- Byddai defnyddwyr ar eu hennill oherwydd y defnydd newydd o'r sbectrwm a ryddhawyd.
- Heb y cyfyngiad manwl ar y nifer o sianeli y gellir eu cynnig, byddai darlledwyr yn gallu teilwra'u sianeli a rhaglenni'n well ar gyfer y gwylwyr.

- Gan fod defnyddwyr wedi newid i'r digidol yn gynt yn y DG nag mewn unrhyw wlad arall, byddai'r newid yn help i gadarnhau safle arweiniol y DG o ran defnyddio technoleg deledu digidol.

Am y rhesymau hyn, mae'r budd a ddaw o newid i'r digidol yn fwy na'r gost y bydd rhai cwsmeriaid yn gorfod ei thalu.

### **Ydi'r DG yn gwneud hyn ar ei phen ei hun?**

Nag yw. Llwyddodd Berlin i ddiffodd ei signal analog yn llwyddiannus yn 2003 heb fawr ddim ymyrraeth. Mae gweddill yr Almaen a'r rhan fwyaf o wledydd eraill Ewrop yn bwriadu dilyn ei harweiniad. Yn U.D.A. mae cynlluniau ar droed hefyd i ddechrau diffodd y signal analog. Ac o 2007, fe fydd pob set deledu a werthir yn U.D.A. yn gorfod cynnwys troswr digidol.

# Llwyddiant teledu digidol

Tŵf teledu digidol fu un o lwyddiannau masnachol a thechnegol mwyaf arwyddocaol y DG yn ddiweddar. Oddi ar ei lansiad yn 1998, mae teledu digidol wedi tyfu'n gynt bron iawn nag unrhyw gynnyrch neu wasanaeth electronig ar gyfer y cartref. Mae pobl wedi talu am deledu lloeren ddigidol a chebl digidol ac wedi prynu blychau Freeview yn gynt nag y buwyd yn prynu teledu lliw yn y 1970au, recordyddion fideo yn yr 1980au cynnar, a theledu lloeren cychwynnol yn y 1990au cynnar.

Erbyn diwedd 2003, roedd dros hanner o deuluoedd y DU wedi gosod teledu digidol yn eu cartrefi.

## Y Cynnydd yn ystod 2003

Cynyddodd y cyflymdra tyfiant teledu digidol yn ystod 2003 am fod defnyddwyr wedi prynu dros 1.5 miliwn o flychau Freeview neu setiau teledu â throswr digidol. Roedd hyn yn arbennig o wir dros gyfnod y Nadolig. Hefyd llwyddodd BSkyB i ychwanegu 600,000 o gartrefi i'r 6.9 miliwn sydd eisoes yn talu'n fisol am eu gwasanaethau teledu. Parhaodd y nifer o gartrefi sydd ar gebl yn gyson.

At ei gilydd, cododd y canran o gartrefi â theledu digidol o 41 y cant i 50.2 y cant yn 2003. Mae amryw resymau am y llwyddiant hwn.

- Bu'r BBC yn hybu sianeli digidol (BBC3 a BBC4).
- Y gostyngiad ym mhrisoedd cyfarpar digidol (gellir prynu'r blwch Freeview rhataf am tua £50).
- Y cynnydd yng ngwerthiant setiau teledu â throswr digidol ('setiau teledu digidol integreiddiedig').
- Argaeledd blychau Freeview yn fwy cyffredinol, yn enwedig mewn archfarchnadoedd.
- Parhad yn y galw am sianeli a rhaglenni premiwm ar y teledu, yn enwedig pêldroed ar loeren a chebl.

## Y dimensiwn rhanbarthol

Mae'r newid i deledu digidol yn amrywio ar draws y DG. Mae ar ei uchaf yng Nghymru, lle mae'r signal analog yn aml yn wan, ac ar ei isaf yn ne-orllewin Lloegr. Unwaith y bydd y newid i'r digidol wedi digwydd, dylai'r nifer o gartrefi sy'n gallu derbyn signal digonol fod yr un peth â'r nifer sydd ar hyn o bryd sy'n gallu derbyn BBC1 da ei ansawdd.

## Ail setiau

Yn ystod 2003, fe fu tyfiant yn y nifer o bobl a newidiodd bob set teledu yn eu cartrefi i'r digidol. Prynodd llawer o bobl flychau Freeview ar gyfer setiau teledu yn eu ceginau a'u llofftydd.

Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o gartrefi'n dal heb newid eu holl setiau teledu i'r digidol, sy'n golygu y byddai'r rhan fwyaf o deuluoedd yn gorfod prynu troswr digidol pe digwyddai'r newid i'r digidol yfory.

# Ein rhag-ddisgwyliadau ar gyfer teledu digidol

## A fydd teledu digidol yn dal i dyfu?

Bydd. Ein hamcan gyfrif yw y bydd 58 y cant o gartrefi â theledu digidol, ac fe fydd y ffigur hwn wedi codi i 63 y cant erbyn diwedd 2005. Erbyn diwedd 2010, amcangyfrifwn y bydd 78 y cant o deuluoedd wedi newid o leiaf un o'u setiau teledu i'r digidol.

Seilir ein rhag-ddisgwyliadau o'r newid tebygol i deledu digidol tan 2012 ar y rhagdybiaeth na fydd newidiadau yn y polisi ac na chyhoeddir amserlen ar gyfer y newid i'r digidol. Ein barn ni yw y bydd y nifer o wylwyr cebl, lloeren a gwylwyr Freeview yn tyfu. Ond bydd y rhan fwyaf o deuluoedd fydd yn newid i'r digidol yn y dyfodol yn dewis Freeview gan nad oes angen talu tanygrifiad misol.

Mae'r gyfradd gyffredinol o dyfiant yn debyg o arafu. Mae tri rheswm yn esbonio'r newid arafach i'r digidol wrth i'r degawd fynd yn ei blaen.

- Mae rhai teuluoedd heb werthfawrogi'r dewis ehangach sy'n bosibl ar deledu digidol.
- Er bod llawer o bobl yn dymuno talu tanygrifiad misol am sianeli premiwm, yn enwedig ar gyfer chwaraeon a ffilmiau, nid ydym yn rhagweld tyfiant mawr mewn teledu drwy dalu. Mae ei dyfiant eisoes wedi dechrau arafu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.
- Mae amryw deuluoedd sy'n dymuno cael teledu digidol heb dalu tanygrifiad misol yn byw mewn ardaloedd lle nad yw Freeview ar gael, felly nid oes modd iddyn nhw dderbyn teledu digidol hyd nes i'r newid ddigwydd pan fydd modd cryfhau nerth y signal digidol.

Ac, yn ogystal â chael prif set deledu, mae gan y rhan fwyaf o gartrefi un set arall o leiaf yn y gegin, mewn lloffttydd neu yn rhywle arall. Ein hamcangyfrif yw fod dros 35 miliwn o setiau teledu y byddai angen eu trosi pe digwyddai'r newid i'r digidol eleni. Ein hamcangyfrif hefyd yw y bydd y nifer hwn yn aros ar lefel debyg yn 2010 am fod teuluoedd yn parhau i brynu llawer mwy o setiau analog na setiau digidol neu flychau trosi i'r digidol.

## Ydi hi o bwys fod y tyfiant mewn teledu digidol yn debyg o arafu?

Un broblem yw fod y Llywodraeth yn y lle cyntaf wedi gosod nôd o fforddadwyedd ar gyfer teledu digidol, sef, y byddai gan 95 y cant o gartrefi deledu digidol. Mae'n annhebyg y cyrhaeddir y nod honno, yn bennaf am nad yw Freeview ar gael ond i tua thri-chwarter o gartrefi'n unig.

Er mwyn i'r DG gael y budd o'r newid i'r digidol, mae angen i'r Llywodraeth wneud penderfyniad i gychwyn y newid cyn bod bron pob cartref wedi gwneud y newid. Mae hon yn broblem fawr ar gyfer y newid, ond y casgliad yw nad yw newid i'r digidol yn amhosibl. Dylai pawb gydnabod fod gadael i'r farchnad fynd ymlaen fel y mae yn annhebygol o gwblhau'r newid i'r digidol. Mae angen strategaeth newydd i oresgyn y rhwystrau yn ffordd y newid.



# Y rhwystrau sy'n wynebu newid i'r digidol os na wneir dim byd

Mae poblogrwydd teledu digidol a pharodrwydd pobl i ymgymryd ag ef wedi bod mor gyflym nes ei bod yn hawdd ddeall pam y mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i newid i'r digidol ond nid yw'n gweithredu i roi'r newid ar waith.

Sut bynnag, ein rhag-ddisgwyliad ynghylch teledu digidol yw bod ein dull o weithredu yn ôl y farchnad yn debyg o gyrraedd cyfyngiad naturiol. Fel yr esboniwyd yn yr adran flaenorol, nid yw rhai teuluoedd yn dymuno newid i deledu digidol, nid yw rhai teuluoedd yn dymuno talu am deledu ar gebl neu loeren, ac mae rhagor hyd yn oed o deuluoedd yn dymuno cael Freeview ond yn methu â'i gael yn eu hardal nhw. Ystyr hyn yw bod lefelau uchel o newid i'r digidol yn annhebygol o ddigwydd, gan gynnwys dangosydd fforddadwyedd y Llywodraeth yn 1999 sydd wedi'i osod ar 95 y cant o deuluoedd.

Nodir rhwystrau penodol yn y ffordd isod.

## Ymateb y Defnyddwyr

Ar hyn o bryd, mae rhai defnyddwyr heb weld gwerth teledu digidol. Mae'r agwedd yn debyg o newid (er enghraifft, buwyd yn ystyried fod ffôn teithiol yn brin ei hapêl yn y nawdegau cynnar), ond mae arolygon o agweddau defnyddwyr yn dangos fod rhai teuluoedd yn 2003 (5 y cant) wedi dweud eu bod yn barod i fyw heb deledu yn hytrach na newid eu setiau i'r digidol. Mae nifer fwy (tua 15 y cant) yn wfftio'r dewis ehangach a gynigir gan deledu digidol.

Ychydig yn unig sydd ar hyn o bryd yn cefnogi'r polisi o newid i'r digidol yn llwyr.

Ac mae defnyddwyr yn ymddiddori'n llai o lawer mewn newid eu setiau ychwanegol na newid eu prif set deledu.

## Cymhellion darlledwyr

Mae'r darlledwyr yn hanfodol bwysig o ran y newid i'r digidol, ond nid yw'n dilyn eu bod â chymhelliant amlwg i helpu i sicrhau'r newid drwy'r DU.

Er y byddai peth o gostau ITV a Channel 4 yn gostwng petaen nhw'n cael rhoi'r gorau i ddarlledu signal digidol ac analog fel ei gilydd, mae'n bosibl y byddai'u hincwm drwy gyfrwng hysbysebiadau'n disgyn am y byddai'r newid i ddigidol yn cynyddu'r nifer o sianeli fyddai ar gael.

Mae gan y BBC hefyd dasg yr un mor anodd o gadw'r ddysgl yn wastad. Byddai'r newid yn lleihau'i chostau darlledu, ond gallai colli gwylwyr leihau cefnogaeth y cyhoedd i'r drwydded.

## Teledu digidol gwyllo-am-ddim

Fe fydd teledu digidol gwyllo-am-ddim (lle na fydd y gwylwyr yn talu tanysgrifiad misol) yn dal i fod yn rhan amlwg o'r farchnad deledu yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, mae chwarter o gartrefi'n methu â'i dderbyn hyd nes y bydd newid i'r digidol yn cychwyn.

Mae BSkyB yn cynnig gosod dysg loeren a blwch pen-teledu am £169 a does gan deledu-am-ddim o loeren mo'r un problemau o ran cyrraedd y gwylwyr ag sy gan Freeview. Fodd bynnag, nid yw'r gwylwyr ar hyn o bryd yn gallu derbyn y prif sianeli – BBC1, BBC2, ITV, Channel 4, S4C a Channel Five – o loeren heb dalu tanysgrifiad misol.

## **Materion amseru**

Nid yw'r Llywodraeth wedi cyhoeddi amserlen ar gyfer newid i'r digidol eto, felly mae amseru'r newid yn amhendant. Heb amserlen fwy pendant, bydd darlledwyr, cwmnïau trosglwyddo, gwneuthurwyr a defnyddwyr yn llai parod i fuddsoddi yn y cyfarpar angenrheidiol ar gyfer y newid.

## **Gweithredu newid i'r digidol**

Am yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae amryw o'r bobl a'r grŵpiau sydd â diddordeb yn y newid i'r digidol wedi bod yn cwrdd yn gyson i drafod Cynllun Gweithredu Newid i'r Digidol. Mae wedi bod yn dra llwyddiannus o ran nodi'r camau angenrheidiol ar gyfer y newid. Ond wrth i'r DG symud o gynllunio i weithredu bydd angen cydlynu a rheolaeth egniol i gwblhau'r broses yn effeithlon.

Os na chaiff y broses ei rheoli'n effeithlon, y perygl yw na fyddai'r newid yn digwydd neu y byddai llawer iawn o ymyrraeth ddiangen yn digwydd ynglŷn â'r broses.

## **Cytundebau rhyngwladol**

Bydd llawer o'r buddiannau ehangach o newid i'r digidol yn dilyn yn unig os gellir ail-ddefnyddio'r sbectrwm ar ôl diffodd y signal analog. Byddwn yn cynrychioli'r DG mewn cynadleddau rhyngwladol pwysig fydd yn penderfynu sut y gellir defnyddio'r sbectrwm fydd wedi'i ryddhau. Nid yw'r materion rhyngwladol hyn yn cynrychioli rhwystr penodol i newid i'r digidol, ond fe danseilid y syniad y tu ôl i'r newid os na allwn warantu defnydd hyblyg o'r sbectrwm gan y DG yn y cynadleddau sydd i ddod.

# Ein hargymhellion ar gyfer newid i'r digidol yn llwyddiannus

Ein cred ni yw fod uchelgais y Llywodraeth i ddiffodd y signal analog a'i ddisodli â signal digidol i'w ddymuno, yn ymarferol ac yn gyraeddadwy. Ond mae'r her yn sylweddol. Mae angen i bawb sy'n ymwneud â newid i'r digidol yn llwyddiannus – y Llywodraeth, ni, darlledwyr, gwneuthurwyr a'r defnyddwyr – ymwregysu ac ymbaratoi i weithredu'r newid i'r digidol. Wnaiff hyn ddim digwydd, ac ni chaiff y DG y budd o gael mwy o ddewis ar y teledu a sbectrwm a ryddhawyd, os osgoir penderfyniadau pwysig ac os na weithredir.

Y glwyd bwysicaf i lamu drosti yw mater cydlyniad. Mae'r bobl fydd yn elwa ar y newid wedi'u taenu'n ehangach na'r rhai sy fwyaf tebyg o dalu costau'r newid. Yn yr adroddiad hwn, dyma ein 30 o brif gasgliadau ac argymhellion

## Amseru

**1** Argymhellwn broses o newid graddol fel na fydd sgriniau teledu'n mynd yn wag dros nos. Dylid diffodd un neu ddwy o'r sianeli analog yn gyntaf er mwyn caniatáu cryfhau'r signal digidol cyn diffodd y sianeli analog eraill. Fe fyddai hyn yn lleihau'r ymyrraeth yng nghartrefi'r DG, cyn belled ag y bydd modd.

**2** Heb amserlen bendant ar gyfer y newid, ni fydd darlledwyr a chwmnïau trosglwyddo yn gallu penderfynu a ddylid newid y cyfarpar analog presennol - os dylid gwneud hynny. Ein hargymhelliad yw na ddylid oedi i wneud hyn cyn bo hir. Ni ddylai ddigwydd wedi i fywyd defnyddiol y cyfarpar trosglwyddo ddod i ben.

**3** Y risg mwyaf difrifol o wneud cyhoeddiad cynnar o'r amserlen yw'r posibilrwydd o waethygu agwedd y defnyddwyr tuag at y newid drosodd cyn i'r cyhoedd weld fod teledu digidol yn dechnolegol sicr.

**4** Fodd bynnag, y budd a ddaw o gyhoeddi amserlen fanwl yn gynnar yw:

- y bydd y defnyddwyr yn gwybod bellach y bydd angen prynu cyfarpar ar gyfer y newid;
- bydd darlledwyr, cwmnïau trosglwyddo, gwneuthurwr, a manwerthwyr yn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi ac
- Fe fyddwn ninnau'n gallu reoli'r fframwaith reolyddol.

Fe fyddai cyhoeddi amserlen yn annog amryw deuluoedd i brynu'r cyfarpar teledu ac yn gymorth ar gyfer llwyddo i gwblhau'r newid i'r digidol rhwng 2007 a diwedd 2010. Mae ymchwil gyda defnyddwyr yn dangos fod llawer o deuluoedd sydd ar hyn o bryd ar analog yn barod i brynu setiau teledu digidol cyhyd â'u bod yn gwybod fod y newid i'r digidol ar fin digwydd. Â'r mwyafrif o deuluoedd eisoes wedi prynu teledu digidol mae'r sylfaen ar gyfer cyhoeddi amserlen eisoes wedi'i gosod.

## Ein rheoliadau

**6** Mae gennym ni ran bwysig i'w chwarae i greu cymhellion i annog pobl i brynu teledu digidol ac i symud rhai o'r rhwystrau yn ffordd newid i'r digidol.

**7** Er na ddylai fod rheidrwydd ar ddarledwyr i reoli'r broses o newid i'r digidol, mae'n rhesymol disgwyl cyfraniad sylweddol ar eu rhan, yn enwedig drwy estyn ffiniau teledu digidol daearol a thrwy ofalu fod gwylwyr yn cael gwybod yn glir am y newid. Fe rown ystyriaeth i gynnwys y goblygiadau priodol ychwanegol yn y trwyddedi ddarlledu newydd sydd i'w dyroddi ar ddiwedd 2004.

**8** Rydym ni eisoes yn ystyried a yw cystadlu'n effeithiol ym marchnad trosglwyddo darllediadau. Fe geisiwn ofalu, os bydd darlledwyr yn cytuno i fuddsoddi mewn cyfarpar trosglwyddo digidol newydd, na fydd cytundeb i weithredu teledu daearol digidol (TDD) ddim yn arwain at godi gormod ar y darlledwyr.

**9** Fe ystyriwn godi ar gwmnïau fydd yn defnyddio'r sbectrwm o 2006 ymlaen. Fe roddai hyn anogaeth i'r darlledwyr ddefnyddio cyn lleied ag y bo modd. Os penderfynwn wneud hynny, fe allai codiannau weithredu am y tro cyntaf ar y BBC, Channel 4 ac S4C yn 2006. Mae ITV a Channel Five eisoes yn talu am eu trwyddedi ddarlledu sy'n cynnwys codiant fel o raid am ddefnyddio'r sbectrwm. Byddwn yn sicrhau na fyddent yn talu dwywaith am ddefnyddio'r sbectrwm.

**10** Gallai rhai o'r goblygiadau ychwanegol godi costau darlledwyr masnachol. Lle bo'n briodol, byddwn yn ceisio rhoi ystyriaeth i'w buddsoddiadau a wnaed ar gyfer y newid i'r digidol.

**11** Argymhellwn fel rhan o adolygiad Siartr Frenhinol y BBC, fod y Llywodraeth yn ychwanegu goblygiadau newydd a phenodol i oblygiadau cyffredinol presennol y BBC i hybu teledu digidol. Dylai'r goblygiadau hyn gynnwys llunio rhwydwaith trosglwyddo digidol cyflawn, darparu gwybodaeth i'r cyhoedd, parhau i gynnig ei sianeli ar loeren wyllo-am-ddim a marchnata teledu digidol ar yr awyr heb unrhyw ragfarn o blaid Freeview.

## Teledu digidol gwyllo-am-ddim

**12** Hyd yn oed pe bai pob defnyddiwr yn dymuno newid i'r digidol, byddai rhai'n wynebu rhwystr difrifol am fod chwarter y cartrefi'n methu â derbyn Freeview.

**13** Cyn y newid i'r digidol yn llwyr gallai lloeren wyllo-am-ddim, gael rhan bwysig o ran cynyddu teledu digidol ymhlith y sawl sy'n dymuno peidio â thalu tanysgrifiad misol ar gyfer teledu. Mewn ardaloedd lle nad yw Freeview ar gael dyma'r unig ddewis. Ond ar hyn o bryd nid oes modd gwyllo BBC1, BBC2, ITV a Channel 4 /S4C am ddim ar loeren ddigidol. Byddwn yn ystyried a oes angen inni osod rheoliadau i wneud lloeren wyllo-am-ddim yn ddewis mwy ymarferol cyn newid i'r digidol.

**14** Yn dibynnu ar ddalgylch y signal digidol ar ôl y newid, efallai bydd angen inni ystyried mesurau pellach i sicrhau fod pob teulu'n gallu derbyn BBC1, BBC2, ITV, Channel 4/S4C a Five ar system loeren wylio-am-ddim. Mae gennym ni'r hawl i orfodi rhai darlledwyr neilltuol i ddarparu ffordd o dderbyn y gwasanaethau hyn pan na all teuluoedd eu derbyn ar safon dderbyniol heb hynny.

**15** Dylai'r Llywodraeth barhau i geisio dileu'r rhwystrau sydd yn ffordd symud tuag at newid i'r digidol, er enghraifft, cyfyngiadau cynllunio sy'n gwahardd gosod dysglau lloeren ar adeiladau arbennig.

### **Gwybodaeth a chyngor i ddefnyddwyr**

**16** Er bod teledu digidol gan hanner y teuluoedd, nid yw'r hanner arall yn debyg o fynd yn ddigidol mor gyflym. Ni fydd newid i'r digidol yn bosibl os na fydd y defnyddwyr yn credu yn y gwelliannau a ddaw ohono.

**17** Yn bell cyn newid i'r digidol, dylai ymgyrch hysbysebu cenedlaethol esbonio i bob teulu fod y newid yn dod gan geisio ennyn cefnogaeth ar ei gyfer yn y cyhoedd. Hefyd fe ddylem gyflwyno cynllun labelu defnyddwyr newydd i'w rhybuddio na fydd cyfarpar analog heb ei drosi yn gweithio ar ôl dyddiad arbennig. Bydd angen gweithredu hyn gyda chefnogaeth gwneuthurwyr a manwerthwyr.

**18** O amgylch y dyddiad newid bydd angen i ddefnyddwyr gael rhagor o wybodaeth a chefnogaeth. Ni ddylai'r ymgyrch hyrwyddo gynnwys hysbysebu ar yr awyr yn unig, ond yn ogystal dylid cael marchnata uniongyrchol, llinellau cymorth a labeli'r cynnyrch yn glir. Bydd angen inni weld ymgyrch cyfathrebu rhanbarthol wrth nesu at amser diffodd yr analog. Rhaid addasu'r cyngor i'r teuluoedd sy'n methu â derbyn y signal digidol hyd nes i'r newid ddigwydd.

**19** Ar ôl cwblhau'r newid i'r digidol fe fydd angen hefyd inni gynnig cefnogaeth barhaol i ddefnyddwyr sy'n dal yn ansicr ynghylch newid i'r digidol.

### **Symud o'r cynllunio i'r gweithredu**

**20** Mae Cynllun gweithredu Teledu Digidol wedi bod yn effeithiol wrth helpu'r Llywodraeth i wneud penderfyniad ynghylch y newid. Fodd bynnag, nid ymdopi â'r broses o peri i'r newid ddigwydd yw'r nôd. Mae angen inni weld rheolaeth weithredol er mwyn cwblhau'r newid yn effeithiol.

**21** Unwaith y bydd cytundeb rhwng darlledwyr y Llywodraeth a ni wedi'i sicrhau, ein hargymhelliad yw bod corff yn cael ei sefydlu (SwitchCo), i fod yn gyfrifol am y newid. Dylai gael dyddiad penodol ar gyfer cwblhau'r dasg.

**22** Dylai SwitchCo:

- danlinellu'r budd o newid i'r digidol;
- cynnig gwybodaeth i'r cyhoedd;
- rhoi cefnogaeth pan fydd y newid yn cychwyn;
- gofalu fod y cynnyrch yn cael eu labelu'n glir;
- gweithio gyda phawb sydd â diddordeb;
- rhoi adroddiad ar eu cynnydd; a
- gofalu nad yw'r gwybodaeth i'r defnyddwyr yn ochri o blaid un ffordd o dderbyn teledu digidol.

**23** Bydd partiön sydd â diddordeb – y Llywodraeth, y darlledwyr, ni, gwneuthurwyr a'r manwerthwyr – yn parhau i gael rhannau pwysig i'w chwarae wrth gyflawni'r newid, ac yn gorfod cytuno ar y broses. Fodd bynnag, ni ddylai'r un o'r rhai a grybwyllwyd redeg SwitchCo am fod eu diddordebau'n rhy eang eu rhediad. Yn lle hynny, dylai SwitchCo fod yn ddigon annibynnol i allu cynrychioli'r defnyddwyr yn effeithiol ac osgoi gwrth daro rhwng buddiannau.

**24** Dylai'r Llywodraeth sicrhau fod gan SwitchCo ddigon o adnoddau i gwblhau ei dasgau. Bydd angen ei ariannu ar gyfer costau rhedeg, gwario ar farchnata a chefnogaeth i'r defnyddwyr adeg y newid i'r digidol. Dylai'r arian ddod o amryw gyfeiriadau posibl gan gynnwys gwarant gyhoeddus uniongyrchol, rhan o arian trwydded y BBC, neu arian preifat fydd yn dod wrth godi am ddefnyddio'r sbectrw. Gan y bydd yr economi at ei gilydd yn derbyn y budd mwyaf o'r newid, ni ddylai'r mecanwaith ariannu roi gormod o faich ar unrhyw grŵp, sefydliad neu gorff unigol.

## O fewn cyrraedd y boced

**25** Hyd yn oed os yw'r newid i'r digidol yn uchel iawn, fe all y gost o drosi i'r digidol ddal i fod yn rhwystr sylweddol i rai teuluoedd. Y risg yw y bydd yn gadael ychydig o deuluoedd heb deledu ar ôl y newid. Mae teuluoedd ag incwm uchel yn debycach ar hyn o bryd o fod â theledu digidol na theuluoedd tlotach, felly fe fyddai'r gost o newid yn disgyn ar bobl dlawd yn bennaf.

**26** Nid oes rhaid i'r costau hyn fod yn rhwystr mawr i'r newid i'r digidol. Mae pris blwch trosi sylfaenol yn 2004 eisoes yn hanner y taliad am drwydded deledu flynyddol. Mae'r prisoedd yn debygol o ddisgyn dros amser, a bydd llawer o ddefnyddwyr yn prynu blychau trosi yn ddigymell yn ystod y blynyddoedd i ddod.

**27** Erbyn i'r newid i'r digidol ddigwydd mae'n debygol y bydd yn ei chael yn anodd talu o hyd. Byddai unrhyw gefnogaeth ariannol yn lleihau peth o'r gwrthwynebiad i'r newid. Fodd bynnag, nid oes angen gwneud penderfyniadau ynghylch cefnogaeth ariannol ar unwaith.

**28** Ar ddyddiad diweddarach, dylai'r Llywodraeth ystyried y costau a'r buddion a ddaw o gynnig cymorth ariannol cyfyngedig i grŵpiau bach, tebyg i'r cynllun trwydded deledu am ddim y BBC i rai dros 75 oed. I osgoi'r perygl y byddai rhai teuluoedd yn dal yn ôl tan y funud olaf yn y gobaidh o dderbyn cefnogaeth ariannol, dylai unrhyw gynllun fod ar gael i bob teulu mewn grŵp neilltuol yn hytrach na'r teuluoedd hynny sydd heb newid eu setiau i'r digidol.

## **Materion Rhyngwladol**

**29** Tanseilir y budd yn sgil newid i'r digidol os na allwn warantu y bydd modd defnyddio'r sbectrwm yn hyblyg. Strategaeth y DG ddylai fod i geisio sicrhau fod cynllun cyfredol y DG ar gyfer teledu digidol yn cael ei warchod yn llwyr. Dylai anelu hefyd at warchod defnydd y DG o'r sbectrwm yn y dyfodol.

**30** Yng nghynadleddau rhyngwladol 2004 a 2006, bydd y DG yn anelu at warchod ei gynlluniau darlledu digidol a chadw opsiynau ar agor ar gyfer unrhyw sbectrwm a gliriwyd ac a fydd ar gael ar ôl y newid. Yn y cynadleddau cydwladol yn 2007 a 2010 bydd y DG yn ceisio ennill yr hyblygrwydd eithaf y sbectrwm a ryddhawyd ar gyfer darlledu a defnyddiau eraill.